YR YMOFYNNYDD

Cylchgrawn Misol
Cymdeithas Undodaidd Deheudir Cymru

Rhyddid
Gwirionedd · Cariad

Cynnwys

Nodiadau'r Golygydd.
Y Daith ar Fore Calan.
A Fu, y Sydd ac a Ddaw.
Tŷ Cwrdd y Plant.
Y Mudiad Undodaidd yn Aberystwyth.
Pwyllgor yr Ysgolion Sul.
Gloywi Cymraeg. Maes Llafur 1949.
Stori Dditectif.
Priodas. Marwgofion.
Nodion yr Eglwysi.



Cyf. XLIX | Chwef., 1949 | Rhif 2

YR YMOFYNNYDD

Pris 6c. y mis; drwy y Post, 7s. oc. y flwyddyn. Danfonir 6 copi ac ychwaneg yn ddidraul drwy'r Post.

Anfoner Erthyglau, Llyfrau i'w hadolygu, etc., i'r Golygydd—

Y Parch. D. JACOB DAVIES, B.A., Penrallt, 2, Tudor Terrace, Aberdâr.

Pwyllgor Ymgynghori—Prifathro J. D. Jones, B.A., B.D.; Parchn. S. E. Bowen; E. R. Dennis; D. Evans; E. G. Evans. B.A.; E. O. Jenkins; J. Islan Jones, M.A.; Simon Jones, B.A.; A. J. Martin, B.A.; J. Marles Thomas, M.A.; Lewis Williams; T. O. Williams, M.A.; a'r Dr. D. J. Davies, Mr. W. S. Jones, M.A., M.Sc., a Mr. D. Jones.

Yr archebion a'r taliadau i'w hanfon i'r Cyhoeddwyr—

J. D. Lewis a'i Feibion, Swyddfa'r "Ymofynnydd", Llandysul

A GOLDEN TREASURY OF THE BIBLE (and Apocrypha).
Selected and edited by Mortimer Rowe, B.A., D.D. The best of the Bible and Apocrypha, in attractive and readable form. 9/6, by post 10/3; leather with gilt edges, 18/-, by post 18/9.

SHALL WE FOLLOW KARL BARTH.
By Sidney Spencer, B.A. 1/6, by post 1/8.

THE STORY AND SIGNIFICANCE OF THE UNITARIAN MOVEMENT.
By W. G. Tarrant, B.A. 1/6, by post 1/8.

UNITARIAN FAITH IN UNITARIAN HYMNS.
1/-, by post 1/2.

WE BELIEVE IN series.
Edited by G. Stephens Spinks, M.A., Ph.D., the set of six titles, 1/6 by post 1/8.

Send for catalogue and lists of other series—

THE LINDSEY PRESS,
14, Gordon Square, London, W.C. 1.

Yr Ymofynnydd

. . Cylchgrawn Misol . .
Cymdeithas Undodaidd Deheudir Cymru

Golygydd—Y Parch. D. JACOB DAVIES, B.A.

Cyfrol xlix. CHWEFROR, 1949. Rhif 2.

Nodiadau'r Golygydd.

Ein Pobl Ifainc.

Dethlir y Sul cyntaf ym mis Mawrth fel Sul Ieuenctid mewn nifer fawr o'n eglwysi eleni ar gais y Gymdeithas Gyffredinol. Gofynnir inni drefnu gwasanaeth ieuenctid arbennig gan adael rhan helaeth ohono yn nwylo'r bobl ifainc os yn bosibl. Yng Nghymru y mae'r Sul cyntaf o Fawrth yn Sul Gwyl Dewi hefyd a hawdd y gellid cyfuno'r ddeubeth a chael gwasanaeth cofiadwy.

Ymhellach, y mae gwahoddiad cynnes i bobl ifainc o bob oed i ddod i dreulio ' pen-wythnos ' yn Llanmadog, Bro Gŵyr eleni eto. Erbyn hyn y mae yno adeiladau pwrpasol ar gyfer gwyliau o'r fath a gellir addo amser da i'r neb a ddaw yno. Y dyddiad yw 23—24ain o fis Ebrill nesaf a gellir cael y manylion oddi wrth y Golygydd.

Datganiad Pwysig gan y B.B.C.

Bu llawer o siarad o bryd i'w gilydd ynglŷn â darlledu gwasanaethau Undodaidd ar y Radio, a neb rywust yn gwybod yn iawn beth oedd y sefyllfa yn swyddogol felly. Penderfynodd y Golygydd alw sylw Adran Crefydd y Gorfforaeth yng Nghymru at ein cwynion. Cafwyd ateb cwrtais a pharod ac addewid am osod y mater gerbron y Pwyllgor Ymgynghorol yn ddioed. Cyfarfu'r Pwyllgor, a dyfynnir yma o'r llythyr olaf a dderbyniwyd, " . . . *fe drafodwyd y mater o ddarlledu gwasanaethau Undodaidd o Gymru gerbron y Pwyllgor Ymgynghorol diwethaf, ac fe gytunwyd mai buddiol fyddai gofyn am gyfraniad gennych yn awr ac yn y man i'n rhaglenni crefyddol.*"

Yn ychwanegol cychwynwyd cyfres newydd o sgyrsiau yn y Flwyddyn Newydd o dan y Pennawd ' Cronicl yr Eglwysi.' Darlledir hwy bob Sul fel rhan o'r Newyddion Cymraeg am hanner dydd. Daw tro yr Undodiaid ar y 13eg o Chwefror. Diolchir i'r B.B.C. am degwch i leiafrif.

Y Daith ar Fore Calan.

Gan D. T. Williams, Aberdâr.

Wedi cael ein danfon i'r gwely yn gynnar yn barod at y diwrnod mawr o'n blaen. Wedi cysgu, wedi breuddwydio llawer, wedi trefnu'r daith, dyma'r bore'n gwawrio. Bore casglu calennig—Bore Dydd Calan. Brecwast da—cig moch a wy—a hwnnw yn *genuine article* wedi'i halltu gan ddwylo mam. O'r fainc nid o dan y cownter ; o'r llaethdy nid o'r *warehouse*. Hyn yn dwyn ar gof yr ymladd am y bledren yn y dyddiau gynt—' football ' gyntaf plant y wlad, neu yn ôl plant Cellan ' football-ball.' Ond yn ôl at y testun, dowch i ni gael dechrau'r daith.

Galw gyntaf yn y Beili Coch (cartref un International a Deon o Fangor)—naw o'r gloch yn y bore. Cnoco wrth y drws yn gryn-edig, rhywbeth yn debyg i actorion yn gweld agor y cyrten ar y perfformiad cyntaf, a gweiddi ' Blwyddyn Newydd Dda ! ' Yr oedd ein gobeithion yn uchel gan ein bod yn byw yn agos a mam yn gweithio wrth y gwair yno bob haf. Yr oedd ceiniog yn llwydd-iant mawr a dyma geiniog gynta'r dydd yn dod ar y gair. Honno yn poethi erbyn inni gyrraedd Springfield a'r cwmni yn gobeithio mai Jones a ddoi at y drws. Y cwestiwn cyntaf wrth bob drws bron oedd, ' Plant pwy i chi te ? ' a'r ateb wrth gwrs yn dod bob tro fel ateb i gatecism, ' Plant yr Efailfach.'

Dyma ni off i gyfeiriad Siop Sandy yn Cwmann, heb anghofio Siop Enoc a'r gobeithion yn uchel iawn 'nawr—pobl Brondeifi oedd y rhain. Yna ymlaen i gyfeiriad Creigiau, cartref y diweddar gyfaill yn Ysgol Ram, Wil Creigiau ; rhyw gipolwg ar Teify Castle heb fentro o fewn y muriau. Galw heibio i Felindre Rhys a Felindre Dafis, a hwythau wedi newid eu henwau erbyn hyn.

Cofio am y gwas mawr yn Felindre Dafis yn dod allan a lwmpyn o gaws gwlad, ond nid bwyd a geisiem ni eithr arian. (Mae'r anian yn para o hyd !). Troi yn ôl nawr, cyn dyddiau Coedmor Hall, neu fe fyddai Coedmor Hall ar y program a heb ein siomi 'rwy'n siwr. Ambell i alwad yn Treherbert ac o Talfedw troi ein hwyn-ebau i gyfeiriad Talfoel (cert !). Ar ol hynny i Goedeiddig, heb anghofio'r *Pear Drops* gyda Morgans Tancoed. Rhagom eto heibio Bethel Bach (cof am y seddau a'r drysau) ac i gyfeiriad Parcyrhos a heibio i Ddeunant trwy bentref Parcyrhos. Ambell i alwad ond heb fod yn doreithiog iawn, eithr yr oedd rhaid galw yn Penlan. Ac yn awr am Pantybyr (cartref y Prif Athro), Gelliddewi-Uchaf, Brynmanalog, Gelliddewi-Isaf ac i gyfeiriad Felinsych (cartref y diweddar Dafydd Felinsych). Yna bwrw 'nôl i gyfeiriad Cilgell-Isaf at yr Undodiaid unwaith eto, a dyma ni yn y fan ar *home ground*. Erbyn hyn yr oedd y boced yn weddol drwm a gofid mawr am y *lining* oblegid copors oedd y cyfan.

Wedi eistedd a chownto yn y clawdd lawer gwaith, rhaid oedd gofyn i'r brawd arall, ' Faint sydd gyda ti ? ' Dyma *High Finance* cyntaf plant y wlad.

Gadael Cilgell-Isaf yn weddol gyffyrddus tua dau o'r gloch y prynhawn ond cyn hir byddai'r blino yn dechrau (yr hin yn oer, naill ai rhew neu eira y dyddiau hynny bob amser). Ysbaid ac yna troi i gyfeiriad Henbant a Chefnbryn, Dolgwm-Isaf a Dolgwm-Uchaf ac o'r fan honno i'r pwynt pellaf, Felin Dolgwm nepell o bentref Pencarreg.

Cyfrif yr arian unwaith eto.

Dyma'r *circular trip* cyntaf i mi ei wneuthur a hyfryd oedd bwrw am y *last lap*. Galw yn Llwynonn a Felinfach a chael croeso yn Brynmeddyg cyn gwneud yr alwad olaf gyda Dafydd Blaenmaes, neu Blaenmas fyddai orau efallai. Cyrraedd ein cartref tua phump o'r gloch. Dyma daith ddewr onte ? a hynny am swm yn llai na choron. A mam yn falch i'n gweld ; nid gofyn am y casgliad a wnai eithr rhoi pryd da o fwyd yn barod ar y ford.

Gwn bellach nad arferiad i gasglu arian oedd hwn eithr un o hen arferion iachus cefn gwlad ; un o arferion Cymru. Mae pethau wedi newid, a dyma fi yn anghofio'r Plas a'r Vicarage. Beth sydd yn dod i'm meddwl am y rhain ? Un peth yn unig a gofiaf yn glir iawn, ' swllt i fab y Ficer a cheiniog i fab yr Efail.' Neu swllt i fab y plas a cheiniog i fab y bwthyn. Dyma i chwi ddechrau Sosialaeth yng Nghymru—brifo teimladau plentyn diniwed. Ac wedi'r brifo, wele'r werin bobl yn dechrau agor eu llygaid. Pobl annoeth, angharedig yn brifo teimlad plentyn a dyma hwnnw wyneb yn wyneb am y tro cyntaf â *Class Distinction*. Beth oedd y gwahaniaeth rhwng mab y Ficer a mab y Bwthyn ar fore dydd Calan ? Dyna ddechrau holi a'r holi hwnnw yn esgor ar frwydr am gydraddoldeb. Pethau bach efallai ond dechrau anghydfod a chwyldro, eiddigedd a chwerwder. Bydded pawb ddoeth wrth drafod plentyn yn ei ddiniweidrwydd.

(Gan ddymuno pob llwyddiant i'r Parch. D. Jacob Davies, a phob diolch i'r Parch. J. D. Jones, y Prifathro bellach. Gobeithio fod y Prifathro wedi danfon ei ' blue pencil ' i gyfeiriad Jacob yn Aberdâr. Rhwydd hynt i'r Ymofynnydd yn nwylo'r gŵr newydd.—D.T.W.).

A Fu, y Sydd ac a Ddaw.

Gan y Parch. E. O. Jenkins.

'Roedd gan Wilym Marles ddarlith ar y testun uchod, a'i arall-eiriad o'r testun oedd, "Ddoe, Heddiw ac Yfory." Mae'r ddarlith ar glawr ac yn fy meddiant i.

Traddododd hi mewn amryw fannau, e.e., yn Nhynyrhewl rhyw filltir uwchlaw Llanbedr a'r elw i fynd i dalu'r pregethwyr a wasanaethant yno o dro i dro. 'Roedd hyn cyn codi capel Brondeifi. Traddododd hi yn Rhydyparc a'r elw i fynd i atgyweirio'r capel—y capel sydd erbyn hyn yn ymyl syrthio i bwll.

Mae gennyf le i gredu iddo gael hwyl fawr gyda'r ddarlith. Cofiaf nifer o hen bobl a'i clywsant yn Nhynyrhewl a'u tystiolaeth hwy oedd ei bod yn ddarlith wych. Nid yw yn fy mwriad i fenthyca dim o'r ddarlith ; benthyciaf y testun yn unig a meddwl amdano yn ei gysylltiad â'n cynulleidfaoedd ni yng Nghymru,—eu doe : eu heddiw a'u hyfory. 'Rwyf yn ddigon hen bellach i gofio tafell faith o'r ddoe : fe wn yn weddol gywir beth yw cyflwr a hanes ein cynulleidfaoedd heddiw, yn enwedig yn sir Aberteifi ac yr wyf yn ddigon o garwr yr achos i geisio dyfalu beth fydd eu hyfory.

A Fu.

'Does dim eisiau i neb ohonom wrido wrth feddwl am a fu : stori i gynhesu calon yw'r stori am gychwyniad a dyddiau cynnar ein cynulleidfaoedd—stori yn sôn am ffyddloniaid a ffyddlondeb.

Cefais fy magu ym Mrondeifi, Llanbedr a chofiaf bron y cwbl o'r rhai a fu'n foddion i gychwyn yr achos.

Cam bychan oedd y cam o Tynyrhewl i dir Brongest lle saif capel Brondeifi, ond yr oedd yn anturiaeth fawr ar y pryd. 'Roedd bron y cwbl o'r rhai gymerodd ran yn yr anturiaeth hono'n fyw ac yn ffyddlon ym Mrondeifi pan oeddwn i'n blentyn, ac mae gennyf barch dwfn iawn i'w coffadwriaeth. 'Roedd nifer fawr o bobl mewn oed yn dilyn yr ysgol Sul yno y dyddiau hynny. Gallaf alw dros 35 ohonynt i'm cof a gallesid cyfrif ar eu cwmni bron yn ddifwlch o Sul i Sul. Amrywient yn eu doniau ac yn y gwasanaeth a roddent. Y diwinyddion oedd John Williams—Jaci Masiwn—Postgwyn, Timothy Evans, saer coed ac ar adegau Tom Conell, a dyna hwyl gaed gyda'r holi cyffredinol ar ddiwedd yr ysgol. Caed hwyl fawr hefyd gyda'r ysgol Gân ar ôl gwasanaeth yr hwyr a W. Hefin Williams yn arwain. Yr oedd yn gôr cryf, a'r holl gantorion yn hyddysg yn y Solffa, a'r pedwar llais mewn cydbwysedd hapus. Noson bwysig tua chanol yr wythnos oedd noson cwrdd y plant pan ddysgid hanesion Beiblaidd i ni mewn ffordd fedrus iawn gan Mrs. R. C. Jones, tra gofalai Mr. D. T. Davies, cyfreithiwr a thad Mr. Terwyn Davies am y Modulator a'r canu. 'Roedd ganddo ddawn i drin plant.

I gael ysgol Sul a gwasanaeth crefyddol o werth rhaid cael awyrgylch ffafriol a naws dymunol, a'r ddau a gynyrchai'r naws hwnnw yn bennaf i mi oedd Dafydd Davies, Hwper, Cwman, tad y diweddar J. Hathren Davies ; a Daniel Jones, Drovers Road, a adnabyddid yn gyffredin wrth yr enw Dan Doctor am iddo fod yng ngwasanaeth Dr. Abel Evans am flynyddoedd. Dyn o alluoedd cyffredin oedd

Dafydd Davies ond dyn a gallu anghyffredin ganddo i ddefnyddio'r galluoedd cyffredin hynny. Pan ofynid iddo ef, ac fe wnaed yn bur fynych, i ddechrau'r ysgol neu wasanaeth yr hwyr drwy weddi nid oedd eisiau pryderu am y naws—awr weddi oedd, ac fe deimlem ni'r plant oddi wrthi. Nid oedd talent fawr gan Daniel Jones ychwaith—rhyfyg fyddai ei roi gyda phobl y pum talent, ond 'roedd ganddo dalent i gynyrchu awyrgylch ymhlith plant gan ddenu y gorau ohonynt.

'Roedd cysgod Dafydd Davies a Daniel Jones fel cysgod Pedr gynt yn golygu iechyd, iechyd meddwl ac ysbryd i lawer un.

Nid yw syndod yn y byd fod dylanwad Daniel Jones ar blant yn fawr a dwfn canys i raddau helaeth—dywedaf hyn gyda'r parch mwyaf gan obeithio na chaf fy nghamddeall—plentyn oedd ef ei hun. Diniweidrwydd calon a glendid meddwl a symlrwydd ysbryd oedd ei nodweddion amlycaf, a'r pethau hyn, medd yr Iesu, sy'n cymhwyso ac addasu i'r deyrnas. Pan weddïai, gweddïai fel plentyn, nid deiliad oedd yn annerch ei frenin ond plentyn yn siarad â'i dad—A Fu, plygwn glin o barch iddo, a gwyn ein byd os gallwn fod yn deilwng ohono.

Y Sydd.

Ar rai ystyriaethau nid oes achos gwrido rhyw lawer eto canys mae yna ffyddloniaid yn y tir o hyd. Yn Llwynrhydowen a Chapel-y-Fadfa? medd rhywun. Ie, yn Llwynrhydowen a Chapel-y-Fadfa. Mae yma nifer lled dda o ffyddloniaid gwir; rhai y gellir cyfrif arnynt drwy'r teg a'r garw; pobl sy'n caru'r achos ac yn gwneud aberth drosto, a hyd y deallaf dyna'r hanes ymhob un o'n cynulleidfaoedd. Ond, ie *ond* y mae yma eraill nas gellir dweud yr un peth amdanynt; oes y mae yma eraill ag y byddai'r achosion wedi darfod ers llawer dydd pe bai pawb fel hwy. Yn Llwynrhydowen a Chapel-y-Fadfa? Ie, fel mae gwaetha'r modd, ac ymhob cynulleidfa a feddwn—pobl a ddônt i'r gwasanaeth pan na fo dim arall yn galw na man arall i fynd iddo.

Ceir eraill wedyn cystal a phe baent wedi rhoi i fyny mynychu'r gwasanaeth o gwbl, ac eto'n dal y gyfrannu at yr achos. Ac i fod yn onest rhaid i mi ddweud ei bod yn gryn ddirgelwch i mi sut mae plant ac wyrion rhai pobl yn gallu bod mor llac gyda'r achos.

A Ddaw.

O feddwl am ddyfodol ein cynulleidfaoedd meddiennir fi gan gryn bryder weithiau ac y mae dau o bethau'n cyfrif am y pryder hwnnw. (1) Prinder rhai yn paratoi ar gyfer y weinidogaeth. Cwyd arswyd drosof weithiau wrth feddwl feallai y daw dydd pan fydd ein achosion farw o ddiffyg gweinidogion.

(2) Prinder plant yn y gwasanaeth ar y Sul. Dywedir gan lawer mai'r peth sy'n cyfrif yn bennaf am y prinder blaenaf yw cyflogau

isel y weinidogaeth o'u cymharu â chyflogau galwedigaethau eraill. Mae hyn yn wir am bob eglwys ac enwad yn y wlad. A oes modd gwella mewn hyn o beth? Oes, ond i'r cynulleidfaoedd ddeffro i'w cyfle a'u rhwymedigaeth, a chredaf yn ddios y gwnaent pe gosodid y mater ger eu bron yn glir ac yn deg. Tra bo cyflogau'r mwyafrif o weithwyr yn ystod y deng mlynedd diwethaf wedi dyblu ac yn fynych wedi treblu, saif cyflogau gweinidogion bron yn yr unfan.

CRYNHOI.

Yn yr "a fu" gwelid nifer dda o blant yn y cwrdd ar y Sul, a hwy sy'n asgwrn cefn corff pob cynulleidfa a feddwn heddiw. Ond ers blynyddoedd mae'r arfer da hynny bron wedi darfod yn ein plith. Y canlyniad yw, wedi cyrraedd y pymtheg oed, mae bron yn amhosibl eu cael i'r cwrdd o gwbl. Gwn am rai bechgyn a merched ifainc rhwng y pymtheg a'r ugain oed na fuont erioed mewn gwasanaeth crefyddol Mae hyn yn golled i'r cynulleidfaoedd, ond beth am y golled iddynt hwy?

"A Ddaw." Terfynaf gydag apêl daer am hwylysu'r ffordd i'r weinidogaeth ag at y rhieni ar iddynt ymarfer y plant hyd y gallont i fynychu'r gwasanaethau ar y Sul. Beth am ymdrech fawr i'r ddau gyfeiriad yna yn 1949? Os gwneir, ni fydd eisiau pryderi am yr "a ddaw."

Ty Cwrdd y Plant.

II.

SAMUEL BACH.

Gan S. A. EVANS (Teifiona).

UN o hanesion tlysaf yr Hen Destament yw hanes Samuel bach. Ganwyd Samuel mewn pentref o'r enw Ramathaim-Sophim neu Ramah fel y gelwid ef weithiau.

Hannah oedd enw ei fam ac Elcanah oedd enw ei dad.

Gwraig dduwiol iawn oedd ei fam. Credai mai rhodd oddi wrth Dduw iddi oedd y baban Samuel, ac fel arwydd o ddiolch i Dduw rhoddodd hithau Samuel bach i wasanaethu'r Arglwydd.

Yr oedd syniadau mam Samuel bach am Dduw yn wahanol iawn i'n syniadau ni heddiw.

Ni allai gredu fod Duw yn ei chartref hi yn Ramah yn ogystal ag yn Nhŷ'r Arglwydd yn Siloh, felly rhaid oedd iddi ei adael yn

Siloh. Nid oedd ganddi hi y wybodaeth sydd gennym ni heddiw am Dduw.

"Mae Duw yn llond pob lle,
Presennol ymhob man."

Rhydd pob mam ei phlentyn bach i Dduw trwy ei ddysgu i'w anrhydeddu, ei barchu, a'i garu fel Tad.

Dyma'r hanes sut y cafodd Hannah Samuel bach.

Yr oedd yn arferiad gan yr Hebreaid i fynd i Siloh unwaith bob blwyddyn i addoli ac i aberthu yn Nhŷ'r Arglwydd.

Math o eglwys neu gapel oedd Tŷ'r Arglwydd.

Ar ddydd yr Wyl yr oedd y bobl yn llawen iawn, ond yr oedd Hannah yn drist iawn am nad oedd ganddi blentyn bach, a theimlai fod y gwragedd eraill yn ei gwawdio.

Yn ystod yr wyl aeth Hannah i mewn i Dŷ'r Arglwydd i weddïo'n ddistaw ar Dduw am anfon mab bach iddi.

"Hefyd hi a addunodd adduned ac a ddywedodd os rhoddi i'th lawforwyn fab, yna y rhoddaf ef i'r Arglwydd holl ddyddiau ei einioes ac ni ddaw ellyn ar ei ben ef."

Er i Hannah weddïo heb lefaru, gwyddai Duw mai gweddi o'r galon ydoedd.

Aeth adref yn llawen gan gredu fod Duw wedi gwrando ar ei gweddi daer.

Cyn hir ganwyd iddi faban bach. "A hi a alwodd ei enw ef Samuel. Canys gan yr Arglwydd y dymunais ef," ebe hi.

Ystyr y gair Samuel yw "enw Duw." Elai Elcanah fel arfer i'r wyl bob blwyddyn, ond gwell oedd gan Hannah aros gartref am ddau neu dri tro i ofalu am ei mab bach.

Gwyddoch mor hoff y mae pob mam o'i baban bach ac yn fodlon aberthu popeth er ei fwyn. Yn hyn o beth nid oedd Hannah yn wahanol i famau Cymru heddiw.

Pan oedd Samuel bach tua thair oed dygwyd ef at Eli yr Offeiriad.

Meddyliwch am y wraig ieuanc yma yn mynd i'r deml at yr hen ŵr penwyn gyda'i phlentyn tlws a llon yn ei llaw, ac yn dweud ei bod yn dod a'i phlentyn i'w gyflwyno i'r Arglwydd i'w wasanaethu holl ddyddiau ei fywyd.

Mae'n sicr i Samuel deimlo hiraeth am ei fam a'i gartref lawer tro.

Cofiwch nad oedd yn gweled ei rieni ond unwaith y flwyddyn a byth yn cael mynd yn ôl i'w hen gartref yn Ramah.

Dyna sut y treuliodd ei fywyd cynnar.

Yr oedd Eli yn hoff iawn ohono ac yr oedd yntau yn sirioli bywyd yr hen ŵr dall.

Bob blwyddyn yn awr elai Hannah i fyny i Siloh i aberthu ac i weld ei phlentyn annwyl ac elai a mantell fechan o waith ei llaw ei hun iddo.

Pan ddeuai yn ôl dechreuai y fantell erbyn y flwyddyn ar ôl hynny a phwy ŵyr faint o weddiau dwys a blethwyd i mewn i batrymau'r fantell fechan a faint o ddagrau a gollwyd wrth ei gwau. Cariad mam at ei phlentyn bach.

Daeth Samuel i hoffi ei le fel gwas bach yn Nhŷ yr Arglwydd a thyfodd yn fachgen da ac yn gysur i Eli.

Yr oedd gan Eli ddau fab—Hophni a Phinees ond trist yw gorfod dweud mai bechgyn drwg iawn oeddynt.

Yr oedd hyn y póeni llawer o Samuel ac yr oedd yn methu deall sut y medrent fod mor ddrwg a'u tad yn ddyn mor dda a duwiol.

Ofnai weld y genedl yn mynd yn ddrwg hefyd am fod yr arweinwyr yn ddrwg.

Un noson wedi iddo fynd i'r gwely ac yn methu cysgu wrth gofio am ddrygioni y genedl a meibion Eli, teimlai'n bryderus iawn ac yn sydyn clywodd lais yn galw arno. Dywedodd yntau, "Wele fi."

Meddyliodd mai Eli oedd yn galw a rhedodd ato. Yntau a ddywedodd, "Ni elwais fy mab, dychwel a gorwedd."

Aeth Samuel yn ôl i'w wely ond ni allai gysgu, a chlywodd y llais eilwaith, ac aeth eto at Eli ond yr un ateb a gafodd.

Meddyliodd y drydedd waith iddo glywed y llais, a'r tro yma eto rhedodd at Eli.

Dywedodd Eli wrtho os clywai'r llais eto, am iddo ddweud, "Llefara Arglwydd, canys y mae dy was yn clywed."

Ufuddhaodd Samuel i Eli a gwnaeth yn hollol fel y gorchymynodd Eli iddo.

Cafodd Samuel y neges a dywedodd y cyfan wrth Eli yn y bore.

Geilw llais Duw arnom ninnau heddiw i wneud ein gorau ar y daith.

Bendithiodd Duw y bachgen bach Samuel a daeth yntau yn broffwyd mawr i'r Arglwydd.

Gwelodd Samuel yn ieuanc mai trwy rinwedd y llwydda pob cenedl a cheisiodd ddangos hyn i'r Hebreaid. Samuel yw'r unig una fu'n gweinyddu y tair swydd bwysicaf yn yr Eglwys Iddewig—sef Offeiriad, Proffwyd yn ceisio egluro ewyllys Duw i'r genedl, a Barnwr neu Frenin. Bu hefyd yn Nasaread drwy ei oes. Nid oes gennym sôn ond am ddau arall—Samson ac Ioan Fedyddiwr. Bu Samuel farw yn Ramah.

Ceir yn yr hanes yma ddarlun tlws o'r hen ac ieuanc yn cydweithio. Gwelwn mai trwy lwybr ufudd-dod y daw bendithion gorau bywyd.

Y Mudiad Undodaidd yn Aberystwyth.

Gan Dr. D. J. Davies, B.A., Aberystwyth.

Deuaf yn awr at yr amgylchiad pwysig yn hanes y mudiad a ddigwyddodd yn 1928. Ar ddiwedd gwasanaeth y bore yr ail Sul o'r flwyddyn honno, rhoes y Parch. G. Eyre Evans ar ddeall i'r gynulleidfa y byddai iddo tua mis Mai ymadael o Aberystwyth a mynd i fyw i gartref ei febyd i Gaerfyrddin, a'i fod mewn gwirionedd eisoes wedi cymryd yr hen dŷ ar y Rhodfa yno, sef y 4ydd. Eglurodd ei fod wedi dod i'r penderfyniad hwn am fod prydles Tŷ Tringad, ei gartref ym Mhenparcau, ar ddod i ben a hefyd fod atyniad naturiol iddo ef i Gaerfyrddin am mai yno y treuliodd ei fachgendod. Aeth ymlaen i ddweud fod ei hen gyfaill F. W. Gibbins o Gastell Nedd wedi ei wahodd i fynd gydag ef ar daith modur trwy Ffrainc a'r Eidal ac y byddai iddynt gychwyn ar y 14eg o Chwefror a dychwelyd ar y trydydd dydd o Ebrill ; ymhellach, y byddai iddo ef gymryd y gwasanaethau yn y Capel Bach hyd y 12ed o Fai, ei Sul olaf yn Aberystwyth, ac os carai'r gynulleidfa iddo wneud hynny, y byddai iddo ddod lan o Gaerfyrddin bob Sul hyd y 9ed o fis Medi i gymryd y gwasanaeth, a hynny ar ei draul ei hun yn hollol.

Hawdd deall fod y newydd hwn wedi disgyn fel taranfollt ar y gynulleidfa gan nad oedd un ohonom, hyd y gwn i, erioed wedi dychmygu y byddai i'r fath beth byth i ddigwydd. Ond gan ei fod yn mynd i ddigwydd a hynny yn fuan rhaid oedd gwneud trefniadau ar gyfer cynnal y gwasanaethau ymlaen yn y dyfodol. Felly penderfynwyd ystyried y mater ar ôl y gwasanaeth y bore Sul dilynol ; a hynny a wnaed. Ar ôl ymdrafodaeth weddol drwyadl penderfynwyd gofyn i'r ysgrifennydd i ymohebu â'r Gymdeithas Undodaidd Frytanaidd a Thramor (fel ag yr oedd y pryd hwnnw) er rhoi ar ddeall iddynt sut yr oedd pethau yn bod yn Aberystwyth, a gofyn am eu cymorth i gadw'r achos yn ei flaen. Ar y dechrau ni chafwyd llawer o gefnogaeth nac yn wir rhyw lawer o anogaeth gan y Gymdeithas i fynd ymlaen â'r mudiad. Dyma'r amser pan yr oedd mudiad ar droed i uno'r Gymdeithas â'r Gronfa Gynorthwyol (Sustentation Fund), ac felly nid oedd brys ar yr awdurdodau i ymgymeryd ag unrhyw waith newydd. Eithr pan ddaeth yr undeb yn ffaith dechreuodd pethau symud yn weddol gyflym. Y canlyniad cyntaf o hyn efallai fu i'r Gymdeithas Gyffredinol (a ddaeth i fod trwy uno'r B. & F.U.A. â'r Sustentation Fund) anfon at ddau o'n gwŷr blaenllaw yn Ne Cymru, sef y diweddar Brifathro J. Park Davies a'r Parch. E. O. Jenkins, Llwynrhydowen, a cheisio ganddynt ddod i fyny yma i ymgynghori â ni ynghylch dyfodol yr achos bach. Felly trefnwyd i aelodau'r gynulleidfa,

gymaint ohonynt ag a allai ddod ynghyd, i gwrdd â'r ddau gennad a enwyd ar brynhawn Sadwrn yn nechrau haf 1928. Am resymau digonol ni ddaeth rhyw lawer ynghyd, ond dangosodd y rhai a ddaeth yn ddigon amlwg eu bod yn awyddus i gadw'r achos ymlaen a phasiwyd yn unfrydol ein bod yn gwneud apêl at y Gymdeithas Gyffredinol a hefyd at Gymdeithas Undodaidd Deheudir Cymru am gymorth sylweddol i gadw'r gwasanaethau yn eu blaen. Addawodd y ddau gennad i gyflwyno ein neges i'r ddwy Gymdeithas. Fel canlyniad i'r apêl hon cawsom rodd (*grant*) o ddeg punt y flwyddyn gan y Gymdeithas Gymreig ac addewid am gymorth sylweddol yr haf dilynol oddi wrth y Gymdeithas Gyffredinol. Penderfynwyd gan awdurdodau'r Gymdeithas i wneud arbrawf am chwe mis yn ystod 1929 er cael gweled pa faint o lwyddiant a fyddai yn debyg o ddilyn chwe mis o bregethu Undodiaeth yn Aberystwyth. Dechreuwyd y gyfres yma o wasanaethau ar yr 21ain o Ebrill, 1929 gan y diweddar Barch. H. H. C. Jones, B.A., y pryd hwnnw o Gaerdydd. Ef fu yma y Sul dilynol hefyd, a chymrwyd rhan yn y gyfres gan dri-ar-ddeg o wahanol bregethwyr, y rhan fwyaf ohonynt yn Gymry ond pedwar yn Saeson. Cymrai rhai un Sul yn unig, eraill ddau neu dri, ac un, sef y Parch. J. Walter Cock o Rydychen, bedwar Sul ar ddeg. Er mai am chwe mis yr oedd y gyfres i fod ar y dechrau ymestynodd yn y diwedd am yn agos iawn i wyth mis. Amrywiai'r cynulliadau lawer iawn—y rhif lleiaf mewn unrhyw wasanaeth oedd pedwar a'r rhif mwyaf tri ugain ac un, pan oedd y diweddar Barch. Ddr. W. Tudor Jones, y pryd hwnnw o Fryste, yn pregethu. Cafodd hefyd gynulleidfa o bum deg a dau hwyr yr un Sul. 'Roedd ef wedi bod yn fyfyriwr yn y Coleg yma ac yn lled adnabyddus yn y dref; hefyd 'roedd wedi bod yn bregethwr gyda'r Hen Gorff cyn dod drosodd atom ni, a thebyg mai dyna'r rhesymau am y cynulliadau mawr a gafodd.

Gloywi Cymraeg.

Gan y Prifathro J. J. Evans, M.A., Tŷ Ddewi.

I.

Ar awr wan mi addewais i Olygydd newydd Yr Ymofynnydd y lluniwn gyfres o wersi yn gyfarwyddyd i lenorion ifainc i sgrifennu Cymraeg graenus a glân. Dau amod a roes imi—nad oeddwn i draethu'n faith, gan mai wrth y fodfedd y byddai'n fy nhalu, a'm bod i ymdrin ag orgraff, Ffurfiant a Chystrawen yr iaith, "gan ddechrau gyda'r Orgraff." Awgrymodd hefyd mai gorau peth fyddai sôn ynghyntaf am yr ymdrechion a fu o bryd i'w gilydd i'w sefydlu.

Yn fras, gellir dweud am y Cyfnod Diweddar mai Beibl 1620 a Geirlyfr y Dr. John Davies o Fallwyd (1632) a fu'n safon orgraff y Gymraeg hyd y ddeunawfed ganrif. Yna fe ddaeth "Geiriadur Cynmraeg a Saesoneg" y Dr. William Owen Pughe (1793—1803), gan newid llythreniad cannoedd o eiriau. Credai Pughe y gallai egluro pob gair trwy ddychmygu gwreiddiau neu fonau iddynt, a rhoi ystyron i'r rheini yn ôl ei fympwy ei hun. O'r herwydd, yr oedd ei orgraff wedi ei sylfaenu, nid ar ffeithiau hanes, ond ar dybiau di-sail. Er enghraifft, ni fynnai ddyblu'r un gytsain os gallai ochel hynny. Y mae gwahaniaeth hanfod, er enghraifft, rhwng *i fyny* (up) ac *i fynnu* (to will), ond yr oedd Puw a'r "Puwiaid" yn ei guddio yn eu horgraff.

Cafodd Puw lawer o ddilynwyr, ond ni lyncwyd ei syniadau gan bawb. Yr "hen ysgol" neu'r "Dafisiaid" y gelwid pleidwyr orgraff draddodiadol Beibl 1620, mewn cyferbyniad i'r "Ysgol Newydd" neu'r "Puwiaid." Aeth yn ddadl ffyrnig rhyngddynt. Pleidiai yr "Orgraff Newydd" gan Ioan Tegid ac eraill, ac amddiffynid yr "Hen Orgraff" gan Ddeon Llandâf—"Bruce Knight, gŵr barus o Nedd," chwedl Daniel Ddu. Rhwng y ddwyblaid yr oedd gwŷr y llwybr canol, megis D. Silvan Evans, Gweirydd ap Rhys a Thomas Rowland. Yr oedd hefyd bleidiau newyddach na'r newydd; gwŷr fel Caledfryn a Mendus Jones yn dal yn groes i'r hen a'r newydd a'r canol. Ac nid oedd yr un blaid yn gytûn ar bob pwnc, eithr fe ffynnai pob cymysgedd. Ar fyr, nid heb reswm y dywedid bod gan bob ysgrifennydd a phob argraffwr Cymraeg ei orgraff ei hun.

Teimlid yn gyffredin fod y sefyllfa'n bwrw anfri ar yr iaith, a bu llawer ymgais i "sefydlu'r orgraff." Dewisodd Cymdeithas Gymreigyddol y Fenni bwyllgor at y gwaith, ac yn Eisteddfod Llangollen (1858) penodwyd Thomas Stephens o Ferthyr a Gweirydd ap Rhys i baratoi cynllun, a chael llais llenorion Cymru arno. Ond nid oedd yr orgraff ronyn nes i'w sefydlu. Yn wir, nid oedd modd ei sefydlu heb ryw oleuni amgen nag oedd ar gael yr adeg honno.

O Rydychen y daeth goleuni o'r diwedd. Yno, yng Ngholeg yr Iesu, yr oedd un o'r ysgolheigion mwyaf a fagodd Cymru—John Rhys—yn Athro Celteg, a thano nifer o ysgolheigion disglair. Yr oeddid wedi sefydlu cymdeithas o'r enw "Cymdeithas Dafydd ap Gwilym," ac yng ngwanwyn 1888 buwyd yn trafod mater yr orgraff yn ei chyfarfodydd. Penderfynwyd ar nifer o reolau, ac anfonwyd hwynt i'r wasg. Yn 1889 awgrymodd yr Athro Rhys y gellid hepgor dyblu ond y llythrennau petrus *n* ac *r*, a chytunwyd ar hynny. Y cyntaf i roi'r cynllun ar waith oedd Owen M. Edwards yn ei lyfrau megis "O'r Bala i Geneva," ac yn ei gylchgrawn "Cymru."

Yn nes ymlaen, ffurfiwyd Pwyllgor yn cynnwys nifer o ysgolheigion Cymraeg a dau o swyddogion Cymdeithas yr iaith Gymraeg i ystyried y mater ymhellach. John Rhys oedd y Cadeirydd a J. Morris Jones yr Ysgrifennydd, ac ym 1893 cyhoeddwyd Adroddiad y Pwyllgor yn Saesneg dan y teitl—"Welsh Orthography, the Report of the Orthographical Committee of the Society for Utilizing the Welsh Language."

Dangoswyd nad "orgraff newydd" a gymeradwyid gan y Pwyllgor, eithr bod ei argymhellion wedi eu seilio ar y dull traddodiadol o sillafu, ac nid ar ddamcaniaethau geirdarddol.

Glas roeso a gafodd yr Adroddiad ar y dechrau, ond hi aeth ar gynnydd yn araf deg. Ymddangosodd amryw lyfrau yn egluro'i gynnwys, ac yn 1914 ad-drefnwyd Geiriadur Spurrell i gydymffurfio ag ef, gan Mr. Bodfan Anwyl.

Yn 1928 fe ofynnodd Bwrdd Gwybodau Celtaidd Prifysgol Cymru i'w Bwyllgor Llên baratoi adroddiad newydd ar bwnc yr orgraff, a chyhoeddwyd ei argymhellion yn llyfryn—"Orgraff yr Iaith Gymraeg" gyda "Geirfa."

(Bydd J.J.E. yn barod i ateb unrhyw gwestiwn ar y gwaith.—*Golygydd*).

Maes Llafur 1949.

Safon I. Dan 9 oed. Ar lafar.

Pennod 2 o'r llawlyfr, 'Hanes Iesu i Blant,' gan y Parch. T. Oswald Williams, M.A. Dysger Emyn 477 o'r Perlau Moliant —Ple mae'r Medelwyr?

Safon II. 9 i 12 oed. Ar lafar neu ysgrifenedig.

'Hanes Iesu i Blant,' gan y Parch. T. Oswald Williams, M.A. Penodau 2 a 3. Psalm 100.

Safon III. O 12 i fyny. Ar lafar neu ysgrifenedig.

(1) Yr un gwaith a Safon II.
(2) Luc xv.
(3) Hanes Capel Rhydygwin gan y Parch. Lewis Williams. (Fe ymddengys yr hanes yn Yr Ymofynnydd).

Cynhelir yr Arholiad ar y Sadwrn cyntaf ym mis Mai, sef Mai 7ed, 1949.

Bydd y Trysorydd, Miss Nellie Jones, Llwynonn, New Street, Lampeter, yn ddiolchgar am gyfraniadau'r ysgolion Sul mor fuan ag sydd bosibl.

S. A. Evans, *Ysgrifennydd.*

Pwyllgor yr Ysgolion Sul.

Dydd Mercher, Ionawr 5ed, 1949 yng Nghapel Llwynrhydowen cyfarfu pwyllgor o gynrychiolwyr ysgolion Sul Undodaidd Ceredigion o dan lywyddiaeth y Parch. E. O. Jenkins.

(1) Darllenwyd a chadarnhawyd y cofnodion, a chafwyd amcangyfrif gan y trysorydd o'r sefyllfa ariannol.

(2) Diolchwyd i'r Arholwyr a gofynnwyd iddynt arholi am 1949.

(3) Pasiwyd pleidlais o gydymdeimlad â Mr. J. Morgan James yn ei afiechyd, a gofynnwyd i'r ysgrifennydd anfon llythyr iddo ar ran y pwyllgor.

(4) Diolchwyd i'r Parch. E. O. Jenkins am gludo'r arholwr o un capel i'r llall ar hyd y blynyddoedd, a hefyd i Miss Evans, Llwynmarles am ei chroeso a'i charedigrwydd.

(5) Penderfynwyd bod adroddiad o arholiad 1948 i ymddangos ar unwaith yn Yr Ymofynnydd.

Hefyd bod adroddiad o'r arholiad nesaf i ymddangos yn mis Gorffennaf 1949.

(6) Trefnwyd cynnal y Pwyllgor nesaf ym Mrondeifi ym mis Medi, 1949.

(7) Gofynwyd i'r ysgrifennydd anfon nodyn i'r Ymofynnydd i atgoffa'r Ysgolion Sul sydd heb dalu eu cyfran flynyddol.

Stori Dditectif.

Y mae gan Loegr sawl ditectif enwog iawn, pobl megis Sherlock Holmes a Sexton Blake (o barchus goffadwriaeth). Amdanom ni'r Cymry yr ydym ar ôl ymhell yn hyn o beth ac efallai fod hyn yn wir am fod ein gwlad ' yn wlad y menyg gwynion.' Eithr y mae gennym Dditectif llenyddol ym mherson yr Athro G. J. Williams o Gaerdydd sy'n curo Dick Barton am gwrso a Sherlock Holmes am ddyfalu. Ef yw'r ditectif a Iolo Morgannwg yw'r ' adyn ' (os goddefir y gair). Dechreuodd y cwrs ers blynyddoedd bellach gyda chyhoeddi hanes ' Cywyddau'r Ychwanegiad ' gan Mr. Williams. Yn union â thraddodiad y stori dditectif orau mae rhyw berthynas gyfeillgar rhwng y ditectif a'r adyn ac y mae'r Athro i'w ganmol am degwch ei driniaeth.

Y bennod ddiweddaraf yn hanes y cwrs yw'r llyfr mawr a gyhoeddwyd ryw ddau fis yn ôl, "Traddodiad Llenyddol Morgannwg" gan G. J. Williams, Gwasg Prifysgol Cymru, 328 td., pris 18s. Dyma eglurhad yr awdur yn y Rhagair, "Wedi imi fod wrthi am beth amser yn ysgrifennu ar fywyd a gwaith Iolo Morgannwg, gwelais nad oedd fodd egluro a gyflawnodd heb roi hanes y gwir draddodiad llenyddol fel y canfyddir ef yng ngweithiau'r beirdd a'r llenorion ac yn hen lawysgrifau'r dalaith."

Hynny yw, fe ddywed yr awdur fod gennym ddwy Forgannwg ; yn gyntaf, y fro ramantaidd a welodd Iolo, ac yn ail, y wir Forgannwg. Â rhagddo i ddweud nad yw Morgannwg Iolo namyn breuddwyd bardd. "Fel y breuddwydiodd Scott am orffennol rhamantus Scotland, felly y creodd Iolo Morganwg orffennol lliwiog i'w holl dalaith." Nid oes fodd gwneuthur a gyflawnodd yn gredadwy i ddarllenwyr Cymraeg yr ugeinfed ganrif oni phwysleisir mai bardd rhamant ydoedd, ac mai ei gampwaith ydyw'r Forgannwg a gyffroes ddychymyg beirdd a llenorion y ganrif ddiwethaf.

Pwnc y llyfr yw ceisio datrys bro rhamant a breuddwyd Iolo oddi wrth y fro fel ag yr oedd a rhoi darlun o'r olaf inni. Y mae'r llyfr yn fanwl ac ysgolheigaidd; y cyfeiriadau'n aml, y profion yn eglur a maint y chwilota yn destun syndod. Ni thâl bellach i geisio 'amddiffyn' Iolo a hynny am y rheswm syml nad oes eisiau amddiffyn arno. Un o edmygwyr pennaf Iolo yw G. J. Williams ei hun yn ddiamau ; cyflwynodd oes gyfan o astudiaeth i ddatguddio ei weithgarwch a datgelu cyfrinion ei symbyliad. Y mae bellach ar fin cyhoeddi ei waith mawr ar ei hanes. Fodd bynnag nid oes gennyf mo'r awdurdod na'r gallu i fwrw barn bendant ar y gwaith eithr cyfeirir ato yn Yr Ymofynnydd am resymau arall.

Y prif reswm yw pennod olaf y llyfr sef "Y Ddeunawfed Ganrif." Yma ceir hanes gwŷr llên y cyfnod a'r syndod yw fod cymaint ohonynt yn perthyn i wreiddiau Undodiaeth yn y fro. Diau fod gan Iolo ei hun ddylanwad yn y cyfeiriad hwn gan ei fod ymhlith pethau eraill yn un o sylfaenwyr 'Dwyfundodiaeth,' fel ei galwai, yn y dalaith.

Y cyntaf a enwir yw Rys Morgan o Bencraig-nedd. "Fe'i ganed, yn ôl pob tebyg, tua diwedd yr ail ganrif ar bymtheg, oherwydd y mae ei enw yn rhestr y tanysgrifwyr ar ddechrau llyfr 'Jencin Jones' o Lwynrhydowen, *Llun Agrippa* (1723). Dywaid Iolo, gan ddyfynu geiriau Siôn Bradford, meddai ef, ei fod 'yn saer ag yn wehydd, ag yn Brydydd ag yn Delynwr, ac yn Bregethwr ym mhlith yr ymneillduwyr . . .' Dywedir ei bod yn weddol sicr ei fod yn aelod yn 'Hen Dŷ Cwrdd,' Blaengwrach. Enw arall sy'n hysbys i'r neb a ddarllenodd hanes Iolo Morganwg yw enw Siôn Bradford o Fetws Tir Iarll. Anghydffurfiwr oedd yntau ac y mae'n un o'r gwŷr a danysgrifiai at lyfr Jencin Jones o Lwynrhydowen. "Tebyg ei fod yn aelod yng nghapel y Betws (a droes wedi ei ddydd ef yn achos Undodaidd) . . . Heblaw hyn, gwyddom fod gweithiau Deistiaid y ddeunawfed ganrif wedi cael llawer o ddylanwad arno, a'i fod wedi ennill cryn enw fel un o'r rhesymolwyr mwyaf beiddgar ym Morgannwg." Cofir fod Iolo yn dal mai 'Dwyfundodiaeth' ydoedd credo'r beirdd Cymreig ar hyd y canrifoedd. Am hynny efallai y bendithir Gorsedd Beirdd yr Eisteddfod Genedlaethol gan Elfed â gweddi Undodaidd ! Yn ôl Iolo, yr oedd Siôn Bradford nid yn unig yn awdurdod ar hanes llenyddiaeth Gymraeg, ond hefyd yn ŵr a astudiai weithiau beirdd a beirniaid llenyddol Lloegr.

Deuwn yn olaf at Edward Evan o Aberdâr. "Dywedir iddo ymuno â'r achos Presbyteraidd yng Nghwm-y-glo, ond yn 1751 penderfynodd yr aelodau a drigai yn Aberdâr godi capel mwy cyfleus iddynt hwy yn Heol y Felin, sef yr Hen Dŷ Cwrdd . . . yn 1772 yr urddwyd ef yn weinidog, a hynny yn yr

Hen Dŷ Cwrdd yn Aberdâr." Cyhoeddodd Edward Evan ddau lyfr rhyddiaith ond ei lyfr poblogaidd oedd "Afalau'r Awen," ei waith prydyddol. Bu farw yn 1798 yn 82 oed.

Dyna rai o'r gwŷr pennaf ym myd llên yn arddel perthynas o bell ac agos â ni, a phan gofiwn am wŷr fel Tomos Glyncothi a Thomas Stephens o Ferthyr a ddaeth yn ddiweddarach oni ddiolchwn am dreftadaeth mor gyfoethog. Bydd dathlu dau can mlwyddiant agor Hen Dŷ Cwrdd Aberdâr yn 1951 yn ddathliad llenyddol ynghyd â dathliad crefyddol. Cofier hynny.

Ond i ddychwelyd at ddigrifwch y dechrau rhaid dweud un gair ymhellach. Y mae nifer fawr o ddarllenwyr yr YMOFYNNYDD wedi colli dagrau'n hidl wrth wrando neu ddarllen hanes 'y Ferch o Gefn Ydfa.' Uchafbwynt y ddrama doddedig honno yw cael Wil Hopkin yn canu 'Bugeilio'r Gwenith Gwyn.' Gwrandewch ar y ditectif unwaith eto, "ac yn wir, er bod y pedair llinell gyntaf yn edrych fel petaent yn rhan o ryw hen ganu, tueddaf i gredu mai ef (Iolo) piau hi fel cân orffenedig." Yn wir, yn wir, beth nesaf!

Prynwch y llyfr yma hyd yn oed os bydd raid i chwi ffurfio cwmni i dalu'r pris.

Priodas.

RHAGFYR 28, 1948, yn Eglwys St. John, Pontshaen, unwyd mewn glân briodas, TOM DAVIES, mab ieuaf Mr. a Mrs. Evan Davies, Gerallt, Pontshaen, gynt o'r Foelallt, Ciliau Aeron, â Miss RACHEL JANE DAVIES, merch ieuaf y Fron, Pontshaen. Gwasanaethwyd gan y Parchn. J. R. Evans, Ficer, E. T. Jones, Curad a Lewis Williams, Ciliau Aeron. Miss Evans, Siop, Pontshaen oedd yn gwasanaethu wrth yr Organ.

Marwgofion.

AR y 27ain o Ragfyr diwethaf bu farw CATHERINE, gweddw y diweddar Jenkin Evans, ym Mhwllglas, ger Llanwnnen, yn 88 oed. Yr oedd hi yn un o'r hynaf, o ran oedran, o aelodau Capel-y-groes. Treuliodd y rhan fwyaf o'i hoes yng nghymdogaeth Llanwnnen; bu'n briod hawddgar, yn fam dyner a gofalus, yn aelod defnyddiol o'r eglwys ac o'r gymdeithas y troai hi ynddi, ac yr oedd gair da iddi gan bawb o'i chymdogion a'i chydnabod. Daearwyd ei gweddillion marwol ym mynwent Capel-y-groes, ddydd Iau y 30ain, y Parchn. J. Islan Jones, M.A. a T. Oswald Williams, M.A. yn gwasanaethu. Gadawodd i hiraethu ar ei hôl ddau fab a thair merch, Evan a Hannah a oedd gartref gyda hi ym Mhwllglas; John yn Newbridge; Mrs. Hughes yn Llanbedr a Mrs. Coward yn Ammanford. Bu Jenkin Evans yn ffyddlon a gweithgar iawn yng Nghapel-y-groes, parhaodd ei weddw felly ar ôl ei farw ef, a magwyd eu plant yn y ffydd a'u daliodd hwynt yn y dyfroedd dyfnion.

Bu JAMES LEWIS, Moeddyn Villa, ger Llanbedr farw ar y 3edd o Ionawr diwethaf, yn 81 oed, a chladdwyd ei weddillion ym mynwent Capel Cribin, ddydd Gwener y 7fed, y Parchn. Lewis Williams a J. Islan Jones, M.A. yn gwasanaethu. Mab ydoedd i James ac Elizabeth Lewis, gynt o Droedyrhiw, Llechwedd-deri, ac yng nghymdogaeth y Cribin y treuliodd ei oes. Priododd a Martha, merch James Evans, Cribin Farm a magasant deulu lluosog. Bu'r plant yn aelodau o ysgol Sul a Chapel Cribin. Bu farw ei briod rai blynyddoedd yn ôl, ac un o'r meibion, John, yn selog a gweithgar gyda'r achos Undodaidd Cymraeg yn Llundain. Heblaw ei blant, gadawodd hefyd un brawd a thair o chwiorydd i deimlo chwithdod oherwydd torri dolen arall o'r gadwyn deuluol.

Nodion yr Eglwysi.

LLWYDDIANT.—Mae Miss Jane Ina Lewis, ail ferch Mr. a Mrs. T. E. Lewis, Penlan, Llanarth wedi pasio arholiad y Preliminary State o dan y Royal College of Nursing. Mae Nyrs Lewis ar hyn o bryd yn Ysbyty Guy's, Llundain. 'Uwch eto yr êl.'

HIGHLAND PLACE, ABERDÂR.—Cynhaliwyd y Parti Nadolig blynyddol nos Iau, 13eg o Ionawr. Ar ôl gwledd o ddanteithion rhannwyd gwerth pum punt o lyfrau rhwng y plant a fu'n ffyddlon i'r ysgol Sul drwy'r flwyddyn. I orffen cafwyd cyngerdd hwylus.

ABERYSTWYTH.—Collwyd un o ffyddloniaid mwyaf y Capel Bach ar y 13eg o fis Ionawr ym mherson Mr. A. T. Grindley. Yr oedd yn ŵr bonheddig o alluoedd mawr ond nid oedd un swydd yn rhy ddistadl iddo ymgymeryd â hi. Yr oedd yn gydwybod i'w gymdeithas a gosododd ei ymroddiad a'i urddas anrhydedd ar y ddiadell Undodaidd yn y dref. 'Da was, da a ffyddlawn.'

EISTEDDFOD "YR YMOFYNNYDD."

Tair Cystadleuaeth :—(1) Emyn Gwladgarol. *Beirniad* : y Parch. E. R. Dennis. (2) Englyn, 'Gwyl Dewi.' *Beirniad* : y Parch. G. R. Tilsley, M.A. (3) Traethawd Byr heb fod dros 400 o eiriau, 'Gwella'r YMOFYNNYDD.' *Beirniad* : Mr. J. J. Evans, M.A.

Gwobr—Lle Anrhydedd yn YR YMOFYNNYDD (oni cheir gwobr arall !). Danfoner i'r Golygydd erbyn y 15ed o fis Mawrth dan ffugenw yn unig.

—GOLYGYDD.

MEWN LLAW.—Ysgrifau gan D. Ll. Carellio Morgan ; Tyssul Davies ; Mrs. A. J. Rees ; John Thomas ; Nodion o Aberystwyth a Phenrhiw a "Chynghrair y Gwragedd."

J. D. Lewis a'i Feibion, Cyf., Gwasg Gomer, Llandysul